

## Y CYNGOR

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.15 ar 21 MEDI 2021, yn y *Lolfa Fach*, Pantycelyn.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair); Ms Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Ms Kate Eden; Ms Mared Edwards, Llywydd UMCA; Mr Owen Evans (trwy Zoom); Yr Athro Simon Green; Ms Sabina O'Donoghue, Llywydd UMABer; Ms Rhuanedd Richards; Mr Mark Tweed; Ms Kath Williams; Dr William Williams; Yr Athro Syr Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwigelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Ms Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Ms Charu Maini (trwy Zoom, tan gofnod 10); Ms Jane Usherwood; a Ms Claire Vaughan.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ms Sharron Lusher; Dr Louise Marshall; a Ms Fiona Sharp.

### 1. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

#### 1. Croeso

1. Croesawyd yr holl aelodau i gyfarfod cyntaf y corff llywodraethu i'w gynnal wyneb yn wyneb yn y Brifysgol ers 14 Chwefror 2020.
2. Croesawyd y canlynol i'w cyfarfod cyntaf yn aelodau o'r Cyngor:
  1. Owen Evans, Aelod Annibynnol; a
  2. Yr Athro Simon Green, Aelod Annibynnol.
3. Roedd y rhai sydd ar hyn o bryd yn gwasanaethu ar un o is-bwyllgorau'r Cyngor hefyd wedi eu gwahodd i gyfarfod y corff llywodraethu i arsylwi, sef:
  1. Charu Maini, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARS);
  2. Jane Usherwood, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (LI&Ch); a
  3. Claire Vaughan, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor LI&Ch a'r Pwyllgor Cydnabyddiaethau.

#### 2. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Dr Marie Wasdell, cyn Warden a chyn aelod o'r staff academiaidd.

### 3. Diwrnod Strategaeth

1. Cynhaliodd y Cyngor Ddiwrnod Encil ar brynhawn yr 20 Medi a bore'r 21 Medi 2021. Ar y diwrnod cyntaf, canolbwyntiwyd ar y diwygiadau a gynigir i gynllun strategol y sefydliad, ochr yn ochr â sesiynau ar yr Arolwg Gwella Ansawdd allanol nesaf, a mentrau cynaliadwyedd amgylcheddol. Bu'r ail ddiwrnod yn gyfle i roi gwybodaeth i aelodau am ganlyniadau'r arolwg staff 2021, a'r cynigion ar gyfer datlu 150, i nodi pen blwydd y sefydliad yn 2022.

#### **PENDERFYNWYD**

2. Y byddai copïau o'r holl gyflwyniadau'n cael eu rhoi ar SharePoint er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol [**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol].

### 4. Canllaw Prifysgolion Da y Times a'r Sunday Times

1. Croesawodd yr aelodau'r newyddion fod Prifysgol Aberystwyth (PA) wedi codi i blith y 40 uchaf yng Nghanllaw Prifysgolion Da y Times a'r Sunday Times 2022, sy'n adlewyrchiad o'i rhagoriaeth addysgu ac o fodlonrwydd myfyrwyr.
2. Roedd y Brifysgol nawr yn yr ail safle yng Nghymru, ac yn 38 o blith 135 o brifysgolion ledled y Deyrnas Gyfunol - wedi codi o safle 42 y llynedd, y canlyniad gorau erioed i'r Brifysgol yn y Canllaw. Llongyfarchwyd yr Is-Ganghellor a chydweithwyr ar y llwyddiant hwn.

### 5. Milfeddygaeth

Y diwrnod blaenorol (20 Medi 2021) roedd y garfan gyntaf erioed o fyfyrwyr wedi dechrau ar y cwrs Baglor Milfeddygaeth (BVSc). Croesawyd hyn gan yr aelodau. Bydd y cwrs newydd, sy'n cael ei ddarparu ar y cyd rhwng PA a'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol, yn adeiladu ar y radd BSc Gwyddorau Milfeddygol a gyflwynwyd gan y Brifysgol ym mis Medi 2015.

### 6. Dull Cynnal y Cyfarfod

Er mwyn cynnal cyfarfod effeithiol ar-lein, gofynnwyd i aelodau roi rhybudd ymlaen llaw pe byddent yn dymuno trafod eitem a nodwyd â seren ar yr agenda. Ni wnaed cais, a byddai'r eitemau dan sylw felly'n cael eu cymeradwyo neu eu nodi yn unol â'r argymhelliad a gyflwynwyd ar y flaendalen.

## 2. **ARFARNIAD BLYNYDDOL O AELODAU'R CYNGOR**

#### DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gadeirydd y Cyngor (COU2122-002).

#### NODWYD

1. Yn ystod mis Awst 2021, roedd Cadeirydd y Cyngor wedi cynnal arfarniad blynyddol gyda'r rhai a fyddai'n parhau yn aelodau o'r corff llywodraethu ym mlwyddyn academiaidd 2021-22. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a drafodwyd yn ystod y cyfarfodydd, a'r camau gweithredu a gynigiwyd.

2. Byddai'r aelodau'n croesawu cael gwybodaeth ynglŷn â materion sy'n effeithio ar y sector addysg uwch, er mwyn gwella'u dealltwriaeth o'r cyd-destun y mae'r Brifysgol yn gweithredu ynddo. Yn benodol, trefnir sesiwn anffurfiol cyn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol ynglŷn â'r Bil newydd y disgwylir ei gyflwyno i'r Senedd yn yr hydref ynglŷn ag addysg ôl-16 yng Nghymru [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].
3. Yn ystod Arolwg y Cyngor Cyllido o Ansawdd Sefydliadol a Phrofiad y Myfyriwr ym mis Ebrill 2021, crybwyllwyd y posibilrwydd o gael Aelodau Annibynnol yn arsylwi ar gyfarfodydd y Senedd. Ystyriwyd hyn ymhellach yn ystod y drefn arfarnu flynyddol, ac roedd aelodau'n gefnogol i'r datblygiad ar y cyfan. Yn y lle cyntaf, roedd yn fwriad gan Gadeirydd y Cyngor fod yn sylwedydd yng nghyfarfod nesaf y Senedd [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].
4. Er i aelodau gydnabod bod nifer o fanteision i gynnal cyfarfodydd y Cyngor a'r is-bwyllgorau ar-lein, roedd dymuniad i fynd yn ôl i drefn o gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb lle bo modd. Awgrymwyd felly cynnal tri o'r pum cyfarfod wyneb yn wyneb bob blwyddyn, ac y byddai'r materion i'w trafod yn dylanwadu ar benderfyniad i annog aelodau i deithio i Aberystwyth ai peidio. Ar y sail hon, disgwylid y byddai cyfarfod y Cyngor ar 26 Tachwedd 2021 yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].
5. Gofynnir i'r Cadeiryddion perthnasol benderfynu a fydd yr is-bwyllgorau yn cyfarfod ar-lein neu wyneb yn wyneb, er bod consensws y byddai'n fuddiol iddynt gyfarfod wyneb yn wyneb o leiaf unwaith y flwyddyn.

### **3. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod.

### **4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09 Gorffennaf 2021 (COU2122-004).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

### **5. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2122-005).

NODWYD

1. Yr Hen Goleg (cofnod 83)

1. Cyflwynwyd crynodeb o gefndir y prosiect gan yr Is-Ganghellor er budd aelodau newydd y Cyngor a'r is-bwyllgorau, gan gynnwys y datblygiadau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor lle'r oedd y Brifysgol wedi gofyn am gyngor cyfreithiol cyn i'r unig gynigydd yn y broses dendro am y gwaith adeiladu ar brosiect yr Hen Goleg gael ei gydnabod yn 'gynigydd sy'n cael ei ffafrio'.
  2. Roedd trafodaethau, yn cynnwys ystyried peirianeg gwerth, nawr yn mynd rhagddynt â'r 'cynigydd sy'n cael ei ffafrio', a'r disgwyl oedd y byddai'r rhain yn dod i ben erbyn diwedd mis Hydref. Bryd hynny, cyflwynid argymhelliad i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (A&Ph) a'r Cyngor i'w ystyried a'i gymeradwyo'n derfynol. Pe byddai angen, byddai cyfarfodydd arbennig o'r ddau gorff yn cael eu cynnull i ystyried yr argymhelliad.
2. Y diweddariadau eraill a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

## 6. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

### DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2122-006).

### NODWYD

1. Cofnodai'r adroddiad adeg ers cyfarfod diwethaf y Cyngor lle'r oedd yr aelodau wedi cymeradwyo'r canlynol trwy ohebiaeth:
  1. Ar argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau, cadarnhawyd y penodiadau canlynol i'r Cyngor a'i is-bwyllgorau:
    1. Yr Athro Simon Green, i wasanaethu ar y Cyngor, a'r Pwyllgorau Diswyddiadau, Buddsoddiadau, ac Enwebiadau am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd yn dechrau ar 01 Medi 2021;
    2. Charu Maini, i wasanaethu ar y Pwyllgor ARS am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd yn dechrau ar 01 Medi 2021;
    3. Jane Usherwood, i wasanaethu ar y Pwyllgor LI&Ch am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd yn dechrau ar 01 Medi 2021;
    4. Claire Vaughan, i wasanaethu ar y Pwyllgor LI&Ch a'r Pwyllgor Cydnabyddiaethau am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd yn dechrau ar 01 Medi 2021;
    5. Melanie Hamer, i wasanaethu ar y Pwyllgor LI&Ch (yn lle'r Pwyllgor ARS) am gyfnod cychwynnol newydd o bedair blynedd yn dechrau ar 01 Medi 2021;
    6. Sharron Lusher, i wasanaethu ar y Pwyllgor ARS (yn lle'r Pwyllgor LI&Ch) am gyfnod cychwynnol newydd o bedair blynedd yn dechrau ar 01 Medi 2021;
    7. Meri Huws, i wasanaethu ar y Pwyllgor Enwebiadau am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd yn dechrau ar 01 Medi 2021; a

8. Rhuanedd Richards, i wasanaethu ar y Pwyllgor Diswyddiadau am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd yn dechrau ar 01 Medi 2021.

## 7. GOHEBIAETH

1. Cymeradwyo Cynllun Ffioedd a Mynediad 2022-23.

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori llythyr oddi wrth Brif Weithredwr CCAUC (COU2122-007).

NODWYD

1. Ar 10 Awst 2021, derbyniodd Cadeirydd y Cyngor lythyr gan Brif Weithredwr CCAUC, Dr David Blaney, yn rhoi gwybod bod y Cyngor Cyllido wedi cymeradwyo Cynllun Ffioedd a Mynediad 2022-23 y Brifysgol. Atodwyd copi o'r llythyr er gwybodaeth.
2. Ers hynny, cyhoeddwyd Cynllun Ffioedd a Mynediad 2022-23 ar wefan y Brifysgol.

## 8. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2122-008).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r manylion diweddaraf ynghylch iechyd a diogelwch. Cyflwynir adroddiad llawnach i'r Pwyllgor LI&Ch ar 12 Tachwedd 2021.
2. Cafodd yr ymdrechion sylweddol a wnaed gan y tîm Iechyd Diogelwch a'r Amgylchedd - yn cynnwys Rheolwr ID&A; Pennaeth Addysg Gofal Iechyd; a Dr Arwyn Edwards, Darllenydd mewn Bioleg - eu cydnabod gan yr aelodau, a'r gwaith caled a wnaethant yn datblygu ymateb y sefydliad i bandemig Covid-19 dros y misoedd diwethaf.

## 9. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan UMAber (COU2122-009).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf am ddatblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.
2. Roedd paratodau'n cael eu gwneud i gynnal seremonïau graddio yn 2020 - y tro cyntaf iddynt gael eu cynnal ers 2019. Er ei bod yn fwriad i gynnal seremonïau dros wythnos gyfan ym mis Gorffennaf 2022, byddai'r trefniadau terfynol yn dibynnu faint o'r myfyrwyr a raddiodd yn 2020 a 2021 a fwriadai deithio nôl i Aberystwyth i'r seremoni.

## 10. MATERION STRATEGOL

1. Adfywio'r Strategaeth

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2122-010).

NODWYD

1. Yn ystod ei Ddiwrnod Strategaeth ym mis Medi 2020, roedd y Cyngor wedi ystyried cynigion ar gyfer adfywio Cynllun Strategol cyfredol y Brifysgol am y cyfnod 2018-23. Ers hynny, roedd Gweithrediaeth y Brifysgol wedi asesu'r cynnydd a wnaed o'i gymharu â'r strategaeth gyfredol, yr amgylchfyd allanol, a sut y gallai'r Brifysgol edrych yn 2030. Seiliwyd fersiwn ddiweddaraf yr adroddiad ar y diweddariad a roddwyd i'r Cyngor ym mis Mawrth 2021, a'r adborth a dderbyniwyd yn dilyn ymgynghoriadau â'r Senedd a'r staff yn gyffredinol.
2. Cafodd rhai agweddau ar adroddiad yr Is-Ganghellor eu trafod eisoes yn ystod y Diwrnod Strategaeth blaenorol. Wrth ofyn i'r Cyngor i gymeradwyo'r adfywiad a gynigir i'r strategaeth sefydliadol, byddai angen i Weithrediaeth y Brifysgol feddwl ymhellach ynglŷn â blaenoriaethu prosiectau unigol a dod ag argymhelliad pellach gerbron ynglŷn â hynny.
3. Nododd y Cyngor sefyllfa ariannol y Brifysgol ar hyn o bryd a'r cyfyngiadau mae hyn yn ei roi ar ddatblygiadau.
4. Croesawodd yr aelodau gynigion pellach i fuddsoddi mewn gweithgaredd ymchwil, er y pwysleisiwyd pwysigrwydd gwneud hynny mewn dull cynaliadwy.
5. Cafodd Gweithrediaeth y Brifysgol eu hannog hefyd i ystyried sut i ddatblygu ymhellach y rhaglenni hyfforddiant newydd ym meysydd milfeddygaeth a nyrsio - yn enwedig gan fod y rhanddeiliaid allanol yn barod i ystyried cynlluniau a fyddai o fudd i'r gymuned leol, a gweithio mewn partneriaeth â'r GIG yn benodol.
6. Trefnir sesiwn anffurfiol i gyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyngor ynglŷn â denu myfyrwyr - yn cynnwys y camau a gymerwyd dros y misoedd diwethaf i gynyddu nifer y ceisiadau, ac agwedd y sefydliad tuag at dargedu marchnadoedd rhyngwladol [**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol].

**PENDERFYNWYD**

7. Cymeradwyo'r adfywiad a gynigir i'r strategaeth sefydliadol, a gofyn i Weithrediaeth y Brifysgol feddwl ymhellach ynglŷn â blaenoriaethu prosiectau unigol a dod ag argymhelliad pellach gerbron ynglŷn â hynny [**GWEITHREDU**: Yr Is-Ganghellor].
8. Dechrau datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol diwygiedig ar ôl i'r Cyngor gytuno ar y rhestr flaenoriaethau [**GWEITHREDU**: Yr Is-Ganghellor].

2. Cynllun Strategol 2018-23 Dangosyddion Perfformiad Allweddol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio (COU2122-011).

## NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno perfformiad y sefydliad ar 31 Ionawr 2021 yng nghyswllt y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunodd y Cyngor arnynt i fonitro cynnydd Cynllun Strategol y sefydliad.
2. Cydnabu'r aelodau mai amcanion i anelu amdanynt, ac i'w cyflawni dros y cyfnod pum mlynedd oedd y Dangosyddion pan gawsant eu cytuno gan y Cyngor yn y gwanwyn 2018.
3. Trafodwyd nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf cyfran o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn cynnwys y cynlluniau a sefydlwyd gan y Brifysgol. Roedd y Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol) wrthi'n datblygu strategaeth ddiwygiedig ynglŷn â hyn, a fyddai'n cael ei chyflwyno i'w hystyried ymhen amser [**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol)].
4. Roedd yr aelodau'n siomedig nad oedd Llywodraeth Cymru hyd yn hyn wedi adolygu menter Rhwydwaith Seren - sy'n annog y myfyrwyr chweched dosbarth mwyaf cymwys i fynd ymlaen i brifysgolion blaenllaw - er mwyn cynnwys mwy nag un brifysgol yng Nghymru ar y rhestr o sefydliadau sy'n cael eu hyrwyddo trwy'r fenter hon. Byddai'r Is-Ganghellor yn dal ati i roi pwysau ynglŷn â'r mater.

## 11. DIWEDDARIAD ARIANNOL

### 1. Cyfrifon Rheoli

#### DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2122-012).

#### NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi ar ffurf naratif y rhagolygon am alldro'r Brifysgol ar ddiwedd Chwarter 4 (31 Gorffennaf 2021). Roedd y canlyniad drafft am y flwyddyn yn unol â rhagolygon a nodwyd yn flaenorol.

### 2. Incwm Dangosol 2021-22

#### DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2122-013).

#### NODWYD

1. Cyflwynai'r adroddiad incwm dangosol am 2021-22, ac yn ôl y rhagolygon byddai'n debyg i'r gyllideb blwyddyn a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 09 Gorffennaf 2021.
2. Er na fyddai cyfanswm nifer myfyrwyr am y flwyddyn yn cael ei gadarnhau'n ffurfiol tan ddyddiad y cyfrifiad yn genedlaethol, sef 01 Tachwedd, nid oedd Gweithrediaeth y Brifysgol yn disgwyl unrhyw newidiadau sylweddol a fyddai ag oblygiadau i'r gyllideb na'r rhagolygon am lif arian.

## 12. PEN-BLWYDD YN 150

## DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU2122-014).

## NODWYD

1. Yn 2022, bydd y Brifysgol yn dathlu ei phen-blwydd yn 150 - carreg filltir bwysig a fydd yn rhoi cyfle i gynyddu'r proffil sydd i'r sefydliad am ragoriaeth dysgu ac ymchwil, i ategu ymgyrchoedd wedi'u targedu o ran denu myfyrwyr, ac i roi hwb i gysylltiadau â chyn-fyfyrwyr ac ymgyrchoedd codi arian.
2. Roedd yr adroddiad yn ddatblygiad o fersiwn flaenorol a ystyriwyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 09 Gorffennaf 2021. Cafodd agweddau ar yr adroddiad diweddaraf hwn eu hystyried eisoes gan aelodau yn ystod y Diwrnod Strategaeth.
3. Croesawodd yr aelodau'r cynigion i amrywio'r cynulleidfaoedd a dargedir gan y Brifysgol yn rhan o Ddathliadau'r 150. Ni fyddai'r cynulleidfaoedd hyn o angenrheidrwydd yn anodd eu cyrraedd, o wneud ymdrechion digonol.
4. Byddai sawl sefydliad arall yn dathlu pen blwyddi pwysig yn 2022. Anogwyd y Brifysgol felly i fod yn uchelgeisiol ac i ddethol pa rai fyddai ei digwyddiadau uchel eu proffil er mwyn creu'r effaith mwyaf.

### 13. EITEMAU ER GWYBODAETH

#### DERBYNIWYD

Derbyniodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Covid-19: Cofnod Penderfyniadau (COU2122-015);
2. Cronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch (COU2122-016);
3. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2122-017);
4. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2122-018); a
5. Adroddiad blynyddol ar gyfrifoldebau aelodau'r Cyngor (COU2122-019).

#### NODWYD

6. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

### 14. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL

#### 1. Pleidlais UCU

1. Ar 6 Medi 2021, roedd Ymddiriedolwr y Cynllun USS wedi ysgrifennu at Universities UK (UUK) i roi dechrau ffurfiol ar ymgynghoriad byr ynglŷn â'r Cynllun Adfer arfaethedig i ddatrys y diffyg ariannol a aseswyd ar 31 Mawrth 2020, ac ar Amserlen Gyfraniadau ddiwygiedig i gadarnhau'r graddfeydd cyfrannu a ddaw i rym o 1 Hydref 2021. Seiliwyd y Cynllun Adfer ar gynnig a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolwr gan UUK.



2. Cafodd ymateb y Brifysgol i hyn ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor y diwrnod blaenorol - fe'i cymeradwywyd trwy ohebiaeth ac fe gâi hynny ei adrodd yn ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.
3. Roedd Undeb y Prifysgolion a Cholegau (UCU) wedi gwrthwynebu'r Cynllun Adfer a gynigiwyd gan UUK, a'r bore hwnnw wedi cyhoeddi cynlluniau i gynnal pleidlais ymhlith yr aelodau ynglŷn â gweithredu diwydiannol. Byddai'r Cyngor yn cael gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau.

## 2. Ffarwelio

Hwn fu cyfarfod olaf y Cyngor i Geraint Pugh, am ei fod yn gadael swydd Ysgrifennydd y Brifysgol ym mis Hydref 2021, i ddechrau yn swydd Ysgrifennydd Bwrdd S4C. Diolchodd Cadeirydd y Cyngor i Ysgrifennydd y Brifysgol am ei gyfraniad i'r Brifysgol a'r Cyngor dros yr wyth mlynedd a aeth heibio, a dymuno pob llwyddiant iddo yn y dyfodol.